# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2011

**YN BRESENNOL:** Mr. J. Cotterell (Cadeirydd)

Aelodau Lleyg
Ms Sue Morris
Mrs Pamela Moore
Yr Athro R. Grove White

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes
Y Cynghorydd Ieuan Williams.

**WRTH LAW**: Swyddog Monitro
Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol (HP)
Swyddog Gofal Cwsmer (BJ)
Swyddog Pwyllgor (JMA)
Swyddog Gweinyddol (SJ)

**YMDDIHEURIADAU**: Raymond Evans, Hugh Gray Morris

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod na Swyddog.

*Cyn dechrau ar Agenda'r cyfarfod roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch y Cynghorydd Ieuan Williams ar ei benodiad fel Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor.*

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2010 yn amodol ar yr ychwanegiad canlynol:-
*Tudalen 5 (paragraff olaf) – Ychwanegodd yr Uchel Gyfreithiwr na fyddai bod yn euog yn flaenorol o drosedd yn rhwystro i ymgeiswyr wneud cais."*

**3. CWYNION I'R OMBWDSMON YNGHYLCH YMDDYGIAD**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – matrics a ddarparwyd gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn amlinellu'r cwynion wnaed i'r Ombwdsmon a'i ymchwiliadau yn dilyn ei diweddaru ar 12 Chwefror 2011.
Cadarnhaodd y Swyddog bod Cwyn Rhif 1 wedi'i chyfeirio i'r Panel Dyfarnu gyda'r Aelod yn cael hyd ddiwedd mis Mawrth i gyflwyno sylwadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r matrics er gwybodaeth.**

**4. CYFEIRIO / SIOP UN STOP I YMHOLIADAU GAN AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer mewn perthynas â'r uchod lle'r oedd cais i Aelodau wneud sylwadau mewn capasiti ymgynghorol oherwydd bod y cynigion yn ymwneud â pherthnasau rhwng Aelodau a Swyddogion.

Cadarnhaodd y Swyddog bod Arweinwyr Grwpiau wedi gofyn i Gyfarwyddwyr Corfforaethol enwebu swyddog o bob Adran/Gwasanaeth i ymateb i faterion Ward. Byddai'r cynnig yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod o'r Tîm Rheoli/Penaethiaid Gwasanaeth ar 25 Mawrth ac wedyn byddai protocol priodol yn cael ei ddrafftio.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei fod yn croesawu'r cynnig fel rhan o'r broses o reoli perthynas cwsmer ac roedd yn gallu gweld y rhesymeg y tu ôl i'r mater. Roedd yn credu y dylai'r Pwyllgor Gwaith edrych i fabwysiadu System Rheoli Perthynas Cwsmer electronig oherwydd bod angen i'r Cyngor foderneiddio. Fodd bynnag, ychwanegodd, byddai angen cydbwyso'r gost ariannol gydag unrhyw system newydd.

Cytunwyd y byddai'r system newydd yn arbennig o ddefnyddiol i Aelodau newydd ac y byddai o fudd i Aelodau a Swyddogion.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r adroddiad a'i gynnwys.**

**5. HAWLIAU MYNEDIAD A GWARCHOD DATA - MYNEDIAD GAN AELODAU I ARDALOEDD CEFN SWYDDFA**

Cyflwynodd y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol adroddiad oedd yn cynnwys adolygiad o'r risgiau o fewn y trefniadau mynediad presennol i swyddfeydd y Cyngor lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i storio. Fe wnaed yr adolygiad yn dilyn toriad ymddangosiadol mewn data yn codi o fynediad i swyddfeydd yr Adran Gwasanaethau Tai a chwynion gan swyddogion ynglŷn â mynediad anawdurdodedig gan Aelodau i swyddfeydd lle mae gwybodaeth bersonol sensitif i'w gweld tra y mae'n cael ei defnyddio gan swyddogion wrth iddynt ddilyn eu gwaith dyddiol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion fwriadwyd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Diogelu Data 1998 a lliniaru rhag unrhyw risgiau i ddiogelwch gwybodaeth bersonol a chyfrinachol. Mae'r Ddeddf yn dweud *"Appropriate technical and organisational measures shall be taken against unauthorised or unlawful processing of personal data and against accidental loss or destruction of, or damage to, personal data."* At hynny, roedd y Comisiynydd Gwybodaeth wedi dweud y bydd yn gosod rhybudd o ddirwy ariannol lle bo mudiadau'n *"contravene the data protection principles and the contravention was of a kind likely to cause substantial damage or substantial distress."*

Roedd asesiad risg wedi nodi'r Gwasanaeth Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Gyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor fel meysydd o risg uchel. Ar hyn o bryd, gall unrhyw un sydd yn dal y cerdyn sweipio fynd i mewn i'r mannau gwasanaeth hyn, pe bai gan y person hwnnw angen busnes cyfreithlon a'i pheidio. Mae'r newidiadau i'r Protocol Aelod/Swyddog yn ceisio cyfyngu ar gyfarfodydd ad hoc o blaid cyfarfodydd fydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a gwaith briffio mewn swyddfa benodol. Fe roddwyd ystyriaeth hefyd i symud tuag at bolisi "desg a sgrin glir" fel ffordd o leihau unrhyw risg debygol. Nododd y Swyddog Monitro na fyddai polisi desg glir ond yn ymwneud â data personol nad oedd yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, tra bo swyddogion i ffwrdd oddi wrth eu desgiau am gyfnod hir neu ar ôl oriau busnes. Cyfeiriodd hefyd at gamau gymerwyd o fewn Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor lle'r oedd mynediad gan Aelodau a Swyddogion wedi'i gyfyngu i sail "angen yn unig" a sefydlu ystafell gyfarfod y drws nesaf i'r fynedfa i'r adran.

**PENDERFYNWYD:-**

**(i) Y dylai'r Cyngor gyfyngu ar y hawliau mynediad presennol i Aelodau i ardaloedd gwasanaeth risg uchel fel a nodwyd, sef y Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol;** ***cynghorwyd y Pwyllgor Safonau y byddai hyn yn ymestyn i staff yn ogystal ond nid oedd gan y Pwyllgor Safonau unrhyw farn ar hyn gan ei fod y tu allan i'w ddyletswyddau.***

**(ii) bod y Cyngor yn paratoi protocol priodol yn ymwneud â hawliau mynediad yr Aelodau i ardaloedd cefn swyddfa ar gyfer ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**

## 6. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH

Cyflwynwyd i'w fabwysiadu – Protocol drafft yn ymwneud â Rhoddion a Lletygarwch.

Cododd yr Aelodau nifer o bwyntiau a chytunwyd ar y canlynol:-

Adran 5.8.4(b) – bod rhodd neu letygarwch yn cael ei gyfyngu i £20 ***"y flwyddyn"*** gan run unigolyn neu fudiad ac ar ôl cyrraedd y trothwy hwnnw bydd unrhyw roddion neu letygarwch pellach angen eu cofrestru yn ystod gweddill y flwyddyn honno.

Fe ddylid ail ddrafftio Adran 5.8.4 (a) a (b) fel eu bod yn gwahaniaethu rhwng rhoddion a lletygarwch.

Adran 5.8.5 – I gynnwys "pebaech yn derbyn cynnig o'r fath ar ran y Cyngor **a chwithau gyda'r awdurdod i'w dderbyn** rhaid i chi yn gyntaf ystyried ......

Atgoffodd y Swyddog Monitro'r Aelodau eu bod wedi ymgymryd ag adolygiad manwl o'r broses yn y Cofrestri ac nad oes unrhyw beth i awgrymu bod unrhyw gamddefnydd yn digwydd o fewn y trefniadau presennol.

**PENDERFYNWYD derbyn y Protocol Rhoddion a Lletygarwch gyda'r newidiadau uchod.**

## 7. RECRIWTIO I'R PWYLLGOR SAFONAU O RAGFYR 2011 YMLAEN A CHYFLWYNIADAU HAWL I HOLI YNGLŶN Â HYNNY

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Mai. Byddai gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r bwriad o ofyn i Un Llais Cymru enwebu 2 gynrychiolydd Cyngor Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau rhag ofn y byddai un Aelod â diddordeb pe bai cwyn yn cael ei chyfeirio yn erbyn ei ch/gyngor.

Soniodd y Swyddog Monitro am nifer y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau a ddisgwylir h.y. 4 cyfarfod ffurfiol yn flynyddol ynghyd ag unrhyw gyfarfodydd ychwanegol fydd eu hangen i ystyried ceisiadau am eithriadau ac unrhyw gyfeiriadau oddi wrth yr Ombwdsmon. Atgoffodd yr aelodau na fu unrhyw gyfeiriadau gan yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried. Roedd yn credu bod y broses o ail fywiocau'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r cyfeiriad at hynny yn yr Adroddiad Archwilio Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gyflawni'n llwyr ac fe ddylai'r aelodau ystyried yr angen am fwy o gyfarfodydd anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau neu a oedd yn awr yn briodol i symud i 4 cyfarfod blynyddol ac unrhyw wrandawiadau.

**PENDERFYNWYD:-**

**(i) derbyn y dogfennau drafft;**
**(ii) gwneud i ffwrdd gyda'r cyfarfodydd anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar unwaith;**
**(iii) bod y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cytuno ar eitemau i'w cynnwys ar Raglenni yn y dyfodol a Rhaglen Waith y Pwyllgor.**

## 8. CYFANSODDIAD NEWYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd i'w ystyried – Rhannau 1 a 2 o'r Cyfansoddiad drafft newydd fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny i'r Cyngor Sir ym Mai 2011.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod Cyfansoddiad y Cyngor, ar gais y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro, yn cael ei adolygu a'i ail ddrafftio er mwyn ei wneud yn fyrrach, yn symlach ac i gynnwys crynodebau gyda chysylltiadau i fynd "ar lein" i gael gwybodaeth i'r funud.

Cyfeiriodd y Swyddog at y 3 newid creiddiol o fewn Rhannau 1 a 2 –

(i) Deisebau i gyfarfodydd – byddai yn cael ei ymestyn yn awr er mwyn caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno deisebau mewn Cyfarfodydd o'r Cyngor;
(ii) Sesiwn Cwestiwn ac Ateb - i ganiatáu i'r Cyngor holi'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau yn cynnwys y Pwyllgor Safonau er mwyn helpu gyda chysylltiad y cyhoedd ond fe fyddai'n cael ei gyfyngu gan weithdrefn briodol.
(iii) Newid Aelodaeth y gynrychiolaeth o Gynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau o un aelod i ddau.

**PENDERFYNWYD derbyn Rhannau 1 a 2 o'r Cyfansoddiad drafft.**

**9. CYFLWYNO ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR SIR**

(a) **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir ar 8 Mawrth 2011.** Yn absenoldeb Mr. Hugh Gray Morris oedd wedi cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir, penderfynwyd **gohirio ystyried yr eitem hwn hyd gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.**

(b) **Rhaglen Waith drafft i'r Pwyllgor Safonau am 2011/12**
Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y rhaglen wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Sir.
**CYTUNWYD i ryddhau datganiad i'r wasg gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn pwysleisio'r bwriad i hysbysebu am Aelodau newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.**

**10. SGILIAU TGCh**

Cyflwynwyd Holiadur Groupwise i Aelodau wedi'i baratoi gan Adain Adnoddau Dynol y Cyngor i'w ystyried a'i dderbyn.

Roedd y Cadeirydd yn credu ei fod yn bwysig nodi sgiliau a dyheadau'r Cynghorwyr mewn perthynas â TGCh er mwyn sicrhau y byddai hyfforddiant priodol ar gael. Cytunodd y Swyddog Monitro ei bod yn briodol cynnal awdit sgiliau ynglŷn â defnydd yn y lle cyntaf.

**PENDERFYNWYD cymryd agwedd "tracio deuol" trwy gysylltu â Chynghorwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio TGCh gan ofyn a fyddent yn dymuno i hyfforddiant priodol gael ei drefnu ar eu cyfer.**

**11. PWYLLGOR SAFONAU – CYFARFOD ANFFURFIOL AR 4 MAI 2011**

Yn unol â'r penderfyniad amlinellir yn 7(ii) uchod, fe ohiriwyd y cyfarfod anffurfiol. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Monitro gyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i gytuno ar eitemau i'w cynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau fydd yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 8 Mehefin 2011.

**MR. JEFFREY COTTERRELL**
**CADEIRYDD**